monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**DECISION RECORDING LOG**

**DECISION DETERMINED ON: Dydd Mercher, 4 Medi 2019**

**DECSION WILL COME INTO EFFECT ON: Dydd Gwener 13eg Medi 2019**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**CABINET MEMBERS PRESENT:**

County Councillors P.A. Fox, R.J.W. Greenland, R.John, P. Jones, S. Jones, P. Jordan, D. Batrouni, J.Pratt and M. Powell

**OTHER ELECTED MEMBERS PRESENT:**

County Councillors

**OFFICERS PRESENT**

Matthew Phillips, Peter Davies, Paul Matthews, Will Mclean, Nicola Perry, Julie Boothroyd, Frances O'Brien, Annette Evans, Cath Fallon, Matthew Lewis (Countryside) and Mike Moran

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | CYFRANIADAU A106 - SAFLEOEDD GWLEDIG | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Mae'r Cabinet yn cytuno ar greu cyllideb o of £21,689 yn 2019/20 i ariannu'r prosiectau canlynol a bod hyn yn cael ei ariannu gan gyfraniad cyfatebol gan arian o'r balans Adran 106 sydd gan y Cyngor Sir fel rhan o'r Cytundebau Adran 106 sydd yn ymwneud â'r datblygiadau canlynol:<br><br>**Cod Cyllid** / **Safle** / **Cyfraniad £**<br>N588 / Safle Bragdy AB Inbev, Magwyr / 5,000<br>N585 / Safle Gwasanaethau Rhaglan A449 / 1,968<br>N582 / Safle Little Mill Sawmill / 2,329<br>N464 / Warrenslade Wood, Cas-gwent / 12,392<br>**Cyfanswm** / **£21,689**<br><br>Mae'r cyllid uchod i'w neilltuo i'r prosiectau canlynol:<br>**Prosiect** / **Swm**<br>1. Llwybrau cerdded Magwyr, hygyrchedd a hyrwyddo / £5,000<br>2. Gweithredu Cynllun Rheoli Castell Cil-y-coed / £4,297<br>3. Rheoli Coetir Warrenslade / £12,392<br><br>Mae'r balans sy'n weddill a heb ei glustnodi, sef £23,020 o ddatblygiad Cae Meldon yng Ngilwern, o dan cod cyfalaf 98881, i'w ddefnyddio er mwyn ariannu yn rhannol Cynllun Gwella Gweithfeydd Haearn Clydach. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3b** | CYNLLUN GWEITHREDU SEILWAITH DIGIDOL | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Seilwaith Digidol atodedig, ac wrth wneud hyn, byddant hefyd yn cymeradwyo'r argymhellion canlynol, hynny yw bod y Cyngor yn: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 1. Mabwysiadu sefyllfa polisi er mwyn bod yn rhagweithiol wrth annog darparwyr band eang i gyflwyno seilwaith band eang ffeibr yn y Sir;<br>2. Sefydlu Grŵp Gwaith Band Eang Strategol er mwyn sicrhau agwedd rhagweithiol er mwyn sicrhau bod holl brosesau'r Cyngor yn cael eu hwyluso i ganiatáu i ddarparwyr band eang i symud ar gyflymder;<br>3. Ystyried benthyciadau masnachol i gwmnïau sydd yn dymuno gweithredu prosiectau seilwaith digidol o fewn y sir a fydd yn mynd i'r afael gyda materion amddifadedd digidol; a<br>4. Ystyried unrhyw gyfleoedd yn llawn i ymgysylltu gyda chyfleoedd cyllido er mwyn gosod 5G a Seilwaith LoRaWAN o fewn y Sir lle y mae yna dystiolaeth o ran angen, yn agor y Sir fel arbrawf rhanbarthol a braenaru ar gyfer yr amrywiaeth o geisiadau sydd i'w datblygu o ganlyniad i hyn. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3c** | LLYTHYR BLYNYDDOL 2018/19 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AC ADRODDIAD CWYNION, SYLWADAU A CHANMOLIAETH AWDURDOD CYFAN CYNGOR SIR FYNWY AR GYFER 2018/19 | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Mae'r Cabinet yn nodi cynnwys llythyr blynyddol PSOW (Atodiad 1) ac yn hysbysu'r PSOW o'u hystyriaethau ac yn cynnig unrhyw gamau erbyn 31 Hydref 2019.<br><br>Mae'r Cabinet yn nodi cynnwys adroddiad blynyddol Awdurdod Cyfan y Cyngor (Atodiad 2).<br><br>Bydd y DMT yn adolygu ei berfformiad yn delio gyda chwynion, yn gwella'r gwasanaeth y mae'n yn darparu, yn ystyried y dystiolaeth a ddaw o'r cwynion sydd wedi eu derbyn.<br><br>Bydd y DMT yn monitro ymatebion i gwynion a'n ffocysu ar arferion da a chydymffurfiaeth. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3d** | CYTUNDEBAU PARTNERIAETH YSGOLION A GYNHELIR | As set out in the report | | RESOLVED:<br>WEDI EI DDATRYS:<br>Mae'r Cabinet yn cytuno gyda'r Cytundeb Partneriaeth Statudol. Agreement. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3e** | GLINIADURON W10 NEWYDD | As set out in the report | | RESOLVED:<br>WEDI EI DDATRYS:<br>Mae'r Cabinet yn cymeradwyo'r defnydd o gyllid cyfalaf neu refeniw un tro o £239,300 er mwyn sicrhau bod ein gweithlu a'n cyfarpar ar y safle yn cwrdd â'r gofynion diogelwch isafswm o ran system weithredol Windows 10 erbyn Ionawr 2020.<br><br>Mae'r Cabinet yn cymeradwyo taliad ychwanegol un tro o'r gyllideb cyfarpar ychwanegol o £67,000 er mwyn delio gydag adnewyddiadau cyfarpar gweithredol ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Cabinet yn cydnabod y pwysau cynyddol ar y gyllideb cyfarpar canolog sydd yn deillio o gynnydd mewn teclynnau cyffredinol ynghyd â gostyngiad yn oes y gliniaduron. Er mwyn mynd i'r afael gyda hyn, rydym yn gofyn i'r Cabinet i ystyried cymeradwyo'r pwysau hwn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3f** | ADNODDAU - CANIATÁU CYNGOR SYDD YN FFOCYSU AR Y DYFODOL | As set out in the report | | RESOLVED:<br>WEDI EI DDATRYS:<br>Yn cymeradwyo strwythur DMT Adnoddau newydd. (Atodiad 1a)<br><br>Yn cymeradwyo'r uwch strwythur gyllid a chreu rôl newydd fel Pennaeth Gwasanaeth (Pennaeth Cyllid Prosiectau) a thîm Cyllid Prosiectau er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu prosiectau sydd o bwys strategol. (Atodiad 5)<br><br>Cymeradwyo ailstrwythuro'r timau yn Adnoddau Dynol, y DPO a'r timau Gwasanaethau Masnachol a Landlord Integredig. (Atodiadau 2, 3 a 4)<br><br>Diweddaru'r swydd-ddisgrifiadau ar gyfer y Rheolwyr Cyllid o fewn y cyfarwyddiaethau Plant a Phobl Ifanc a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r Rheolwr Cyllid Dros Dro yn MonLife er mwyn sicrhau bod yna eglurder o ran atebolrwydd i'r Prif Swyddog ar gyfer Adnoddau, y Swyddog A151 a'r Dirprwy Swyddog A151 ar gyfer materion proffesiynol, technegol a chyllidol statudol ac er mwyn sicrhau rheolaeth gyllidol, rheoli a llywodraethiant effeithiol ar draws yr Awdurdod cyfan.<br><br>Bydd gweithredu'r cynigion ailstrwythuro llawn yn cynnig arbedion ariannol cychwynnol o £32,000 yn y flwyddyn gyllidol yn 19/20. Mae disgwyl i hyn gynyddu i isafswm o £150,000 ym mlwyddyn ariannol 20/21 ac isafswm o £250,000 ym mlwyddyn ariannol 21/22.<br><br>Bydd y sefydliad cymeradwy yn tyfu o ran y nifer o swyddi parhaol i 16.86, ac ni fydd 2 o'r rhain yn cael eu llenwi yn y tymor byr, ac mae mwy o fanylion a'r rhesymeg wedi eu cynnwys ym mhara 3.10.<br><br>Bydd y model cyllido yn profi gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer ffioedd proffesiynol allanol o £25,000, gostyngiad yn y gyllideb goramser o £17,000 ac incwm masnachol o £201,000. Wrth wneud hyn, byddwn yn sicrhau arbedion maint mewnol priodol / creu cymysgedd o sgiliau a fydd yn cynnig sicrwydd / buddiannau o ran lles staff yn y rhaglenni a'r prosiectau sydd yn cael eu cyflenwi.<br><br>Bydd y newidiadau yn cael effaith ar gytuneddau lefel gwasanaeth / ni fydd perthnasau codi ffioedd gydag ysgolion yn cael eu gweithredu/ tan ei fod yn eglur bod yr ysgolion yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig / yn derbyn unrhyw addasiadau o ran codi ffioedd sydd yn disgyn o fewn cyllidebau'r ysgol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae unrhyw gostau sydd yn ymwneud gyda gweithredu'r strwythur (e.e. costau diswyddo) i'w talu o gyllideb Adnoddau ond os yw hyn yn annigonol, bydd yna gais m gyllid corfforaethol i dalu am gostau diswyddo un tro.<br><br>Mae'r Prif Swyddog ar gyfer Adnoddau yn bwrw ymlaen gyda gweithredu'r strwythur newydd ac yn gwneud unrhyw addasiadau sydd yn dod yn amlwg yn ystod y broses gan ymgynghori gyda'r aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3g** | PARODRWYDD AR GYFER BREXIT | As set out in the report | | RESOLVED:<br>WEDI EI DDATRYS:<br>Dim penderfyniad – er gwybodaeth yn unig. |
| **Additional Information:** | | | | |